**Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr**
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)

Swyddog Cyswllt:
Sharon Thomas 01352 702324
sharon.b.thomas@flintshire.gov.uk

At:

Y Cynghorwyr: Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

**Aelodau Cyfetholedig:**
Sally Ellis, Reverend Brian Harvey and Allan Rainford

Dydd Mawrth, 31 Mai 2022

Annwyl Gynghorydd

**HYSBYSIAD O GYFARFOD ANGHYSBELL**
**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**
**DYDD MERCHER, 8FED MEHEFIN, 2022 AM 10.00 AM**

Yn gywir

Steven Goodrum
Rheolwr Gwasanaethau Democratiadd

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar 01352 702345.

**R H A G L E N**

1 **PENODI CADEIRYDD**

**Pwrpas:** Penodi Cadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.

2 **PENODI IS-GADEIRYDD**

**Pwrpas:** Penodi Is-Gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor.

3 **YMDDIHEURIADAU**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau.

4 **DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

**Pwrpas:** I dderbyn unrhyw ddatganiad o gysylltiad a chynghori'r Aelodau yn unol a hynny.

5 **COFNODION** (Tudalennau 7 - 12)

**Pwrpas:** I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 14 Mawrth 2022.

6 **AROLYGIAETH GOFAL CYMRU (AGC) - GWIRIAD SICRWYDD** (Tudalennau 13 - 26)

Adroddiad Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) - Dirprwy Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

**Pwrpas:** I nodi cynnwys y llythyr Perfformiad Blynyddol, asesiad AGC o berfformiad yr awdurdod yn ystod 2020/21 a Chynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020/21.

7 **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22** (Tudalennau 27 - 62)

Adroddiad Prif Swyddog (Llywodraethu) -

**Pwrpas:** Cefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2021/22.

8 **TYSTYSGRIF GRANTIAU A FFURFLENNI 2020/21** (Tudalennau 63 - 86)

Adroddiad Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

**Pwrpas:** Hysbysu Aelodau o'r ardystiad hawl grant gan Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2021.

9 **ARCHWILIO CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO 2022** (Tudalennau 87 - 106)

Adroddiad Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid Corfforaethol -

**Pwrpas:** Adolygu Cynllun Archwilio - Archwilio Cymru 2022 ar gyfer y Cyngor sy'n nodi'r gwaith archwilio arfaethedig ar gyfer y flwyddyn, yn ogystal ag amserlen, costau a'r timoedd archwilio sy'n gyfrifol am gynnal y gwaith.

10 **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2021/22** (Tudalennau 107 - 126)

Adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Rheoli Risg -

**Pwrpas:** Rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniad yr holl waith archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2021/22 a rhoi'r farn Archwilio Mewnol flynyddol ar safon rheolaeth fewnol, rheoli risg a llywodraethu yn y Cyngor.

11 **OLRHAIN GWEITHRED Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** (Tudalennau 127 - 130)

Adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Rheoli Risg -

**Pwrpas:** Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y camau gweithredu sy'n codi o'r pwyntiau a godwyd mewn cyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio blaenorol.

12 **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL** (Tudalennau 131 - 138)

Adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Rheoli Risg -

**Pwrpas:** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yr Adran Archwilio Mewnol.

13 **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL** (Tudalennau 139 - 180)

Adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Rheoli Risg -

**Pwrpas:** Cyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd yr Adran Archwilio Mewnol.

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Mae’r eitem a ganlyn yn cael ei hystyried yn eitem eithriedig yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 14 Rhan 4 Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y cafodd ei diwygio).

Mae’r adroddiad yn cynnwys data personol ac mae’r budd cyhoeddus o ddal y wybodaeth yn ôl yn drech na’r budd cyhoeddus o’i datgelu.

14 **YSGOL GYNRADD DRURY – TREFNIADAU RHEOLAETH ARIANNOL**
(Tudalennau 181 - 198)

Adroddiad Rheolwr Archwilio Mewnol, Perfformiad a Rheoli Risg -

**Pwrpas:** Hysbysu'r Pwyllgor am yr adolygiad Archwilio Mewnol o Ysgol Gynradd Drury.

***Sylwch, efallai y bydd egwyl o 10 munud os yw’r cyfarfod yn para’n hirach na dwy awr.***

**Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd**

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddaru'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar https://flintshire.publici.tv/core/portal/home